**Cynllun Hurio Car Prydles ar Gontract**
**Rheolau'r Cynllun – Telerau ac Amodau Defnyddio**

**Cyflwyniad**

1. Bydd y cynllun yn cael ei adnabod fel Cynllun Car Prydles y Cyflogwr, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y cynllun'.

**Diffiniadau**

Ystyr "y cyflogai" yw rhywun sy'n gweithio i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sy'n ymrwymo i'r cytundeb hwn.
Ystyr "y cyflogwr" yw'r sefydliad (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) sy'n cynnig y cynllun
Ystyr "deiliad y gyllideb" yw'r uwch-reolwr sy'n atebol am wariant ariannol.
Ystyr y "cynllun" yw'r Cynllun Car Prydles.
Ystyr "rheolwr y cynllun" yw Knowles Associates Total Fleet Management Ltd T/A Knowles Fleet
Ystyr "cerbyd allyriadau isel iawn (ULEV)" yw cerbyd sydd wedi'i ddosbarthu'n gerbyd allyriadau isel iawn gan yr Asiantaeth Ardystio Cerbydau

**Cymhwystra**

2. Caniateir i bob cyflogai ymuno â'r cynllun ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf isod:
   a. Nad yw ei gyflog yn gostwng yn is na'r cyflog byw gwirfoddol o ganlyniad i'r symiau a aberthir ganddo
   b. Ar gontract parhaol neu wedi'i benodi am gyfnod penodol (llawn amser neu ran-amser) a delir drwy system gyflogres y cyflogwr
      i. ni chaniateir i gyflogeion cyfnod penodol drefnu cytundebau onid ydynt yn dod i ben cyn i'w swydd cyfnod penodol ddod i ben
   c. Wedi cwblhau ei gyfnod prawf yn llwyddiannus
   d. Nad yw wedi'i nodi'n unigolyn sydd mewn perygl o gael ei ddiswyddo na bod achos disgyblu gweithredol ar ei gofnod cyflogaeth
   e. Yn meddu ar drwydded yrru lawn, ddilys y DU

Bydd pob car yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

**Hyd y cynllun**

3. Mae ymuno â'r cynllun yn wirfoddol ond bydd cyflogeion sy'n penderfynu ymuno â'r cynllun yn llofnodi ymrwymiad gyda'u cyflogwr i gymryd rhan yn y cynllun am gyfnod penodol (dwy i dair blynedd fel arfer) neu unrhyw gyfnod arall o'r fath y cytunir arno.

   **Sylwer: Bydd y cynllun yn gosod ymrwymiad ariannol hirdymor ar gyflogeion, a dylai cyflogeion astudio'n ofalus yr holl amodau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon a'r dyfynbris cyn gwneud cais i ymuno. Ystyrir bod cyflogeion sy'n cyflwyno cais ar-lein ac yn llofnodi cytundeb wedi ymrwymo i gytundeb hirdymor rhwymol.**

4. Mae'r cynllun yn seiliedig ar gytundeb rhwymol rhwng y cyflogwr a pherson penodol a enwir (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y cyflogai').

**Eich hawl i ganslo**

5. Gallwch ganslo'r cytundeb hwn drwy anfon e-bost at applications@knowlesfleet.com neu drwy'r post at Red Lion House, The Green, Great Bentley, Essex, CO7 8QG. Mae gennych BEDWAR DIWRNOD AR DDEG o'r dyddiad y gwnaethoch lofnodi eich cytundeb i wneud hyn. Os ydych yn canslo'r cytundeb hwn o fewn y cyfnod canslo, bydd unrhyw arian yr ydych wedi ei dalu yn cael ei ddychwelyd i chi. Ni fydd yn rhaid ichi wneud unrhyw daliadau pellach.

**Taliad canslo**

6. Os ydych yn canslo'r archeb ar ôl i'r cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg ddod i ben, bydd yn ofynnol i chi dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chanslo o'ch cyflog net. Fe'ch cynghorir i gysylltu â rheolwr y cynllun cyn ichi ganslo'r archeb. Mae'n bosibl y bydd taliad gweinyddol hefyd yn berthnasol, a fe'ch hysbysir am hyn ar adeg canslo'r archeb.

**Diogelu data**

7. Bydd cyfrinachedd yn cael ei sicrhau drwy gydol cyfnod eich contract, bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli a chymorth i chi ond hefyd at ddibenion cysylltiedig, gan gynnwys diweddaru a gwella cofnodion cleientiaid, gwaith dadansoddi i'n helpu i reoli'r gwasanaeth, ffurflenni statudol, a chydymffurfedd cyfreithiol a rheoliadol.

   Ni fydd Knowles Associates Total Fleet Management Ltd yn casglu gwybodaeth gan unigolyn ond yr hyn sy'n angenrheidiol ac yn ddigonol ar gyfer darparu ein gwasanaeth i'r parti hwnnw. Bydd yr holl ddata'n cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon, a bydd cywirdeb data yn hollbwysig. Bydd yr holl wybodaeth yn ddiogel bob amser ac yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679.

   Byddwn yn defnyddio'ch data at ddiben rheoli'r contract prydles, ac ni fyddwn yn rhannu eich data â chyflenwyr ond pan fo angen gwneud hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y cytundeb. Yn ogystal, byddwn yn rhannu data pan fo'n ofynnol inni wneud hynny o dan y gyfraith neu o dan rwymedigaeth statudol.

   Byddwn yn cynnal ein cofrestr diogelu data ac yn sicrhau bod ein trwydded yn gyfredol. Byddwn yn sicrhau bod ein cyflenwyr neu drydydd partïon yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

   Ceir rhagor o wybodaeth am y defnydd o ddata yn ein Polisi Preifatrwydd yn http://www.knowlesfleet.com/privacy-policy.html

**Natur y cynllun**

8. O dan y cynllun bydd y cyflogwr yn trefnu, drwy gwmni prydles, i'r cyflogai gael cerbyd modur allyriadau isel iawn newydd fel y nodir, a fydd yn cael ei drethu a'i gynnal a'i gadw’n llawn gan y cwmni prydles neu drydydd parti awdurdodedig. Yn ogystal, bydd yswiriant cynhwysfawr llawn yn cael ei drefnu ar ran y cyflogai.

9. Fel amod o sicrhau bod y car ar gael ar gyfer ei ddefnydd preifat, mae'n ofynnol i'r cyflogai ymrwymo i gytundeb gyda'r cyflogwr i dalu cost y car a'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyflogwr. Bydd y gost fisol yn cael ei chadarnhau gan reolwr y cynllun ar ddechrau'r cytundeb.

10. Gellir addasu’r taliad ar gyfer y car prydles (yn amodol ar ymrwymo i gytundeb aberthu cyflog neu gytundeb didynnu cyflog newydd a newidiadau i delerau ac amodau) ar gyfer unrhyw ddigwyddiad yr ystyrir ei fod o ganlyniad i newid ffordd o fyw fel y’i diffinnir gan CThEF o bryd i’w gilydd. Efallai y bydd angen newid telerau trefniant aberthu cyflog pan fo newid yn ffordd o fyw’r cyflogai yn arwain at newid sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol.

    Sylwer: Mae'r cyflogwr yn cadw'r hawl i derfynu'r cynllun ar ddiwedd y cytundeb a gwrthod unrhyw gais os penderfynir nad yw er budd pennaf y cyflogwr.

**Ad-dalu costau tanwydd / trydan at ddefnydd busnes**

11. Bydd yn ofynnol i gyflogeion sy’n teithio ar gyfer busnes brynu’r tanwydd / trydan sydd ei angen at ddefnydd busnes a hawlio ad-daliad drwy broses treuliau presennol y cyflogwr.

12. Gall methu â chyflwyno ffurflenni milltiredd yn brydlon arwain at beidio â thalu hawliad am ad-daliad tanwydd, a mater i’r cyflogwr fydd penderfynu a wneir ad-daliadau ar gyfer ceisiadau a ddychwelir yn hwyr, a hynny yn ôl ei ddigresiwn.

## TELERAU AC AMODAU DEFNYDD

**Llogi**

13. Mae'r cyflogwr wedi cytuno i roi’r cerbyd ar log a bydd y cyflogai yn cymryd y cerbyd a bydd y gair “cerbyd” yn cynnwys unrhyw gydrannau a ailosodir a'r holl gydrannau a ailosodir a'r holl ychwanegiadau ac ategolion sydd wedi'u gosod ar y cerbyd mewn unrhyw fodd yn ystod cyfnod y cytundeb hwn, yn amodol ar y telerau ac amodau a nodir yn y cytundeb hwn, gan gynnwys y rhestr, ar gyfer y cyfnod llogi a nodir yn y cytundeb.

14. Mae’r cyflogai yn dewis ymrwymo i gytundeb o’r fath i’w ddefnyddio wrth gyflawni ei ddyletswyddau a/neu at ddibenion cymdeithasol, domestig a phleser. Mae'r cyflogai yn cydnabod ei fod wedi dewis y cerbyd a bod y cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb llogi ar gontract gyda'r cwmni prydlesu at ddibenion y cytundeb hwn, a hynny ar gais y cyflogai. Bydd copi o gytundeb y cwmni prydlesu ar gael ar gais.

**Taliadau**

15. Mae'r cyflogai yn awdurdodi'r cyflogwr i ddidynnu o'i gyflog y swm aberthu cyflog y cytunwyd arno ymlaen llaw.

16. Bydd unrhyw symiau ychwanegol sy’n ddyledus o dan y cytundeb hwn yn cael eu talu’n uniongyrchol gan y cyflogai i reolwr y cynllun gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

    a. Unrhyw daliad am filltiredd sydd uwchlaw’r terfyn yn ystod cyfnod y cytundeb ac ar ôl i’r car gael ei ddychwelyd.

    b. Unrhyw daliadau sy'n deillio o draul gormodol ar ddiwedd y cytundeb neu ar adeg terfynu’r cytundeb.

    c. Unrhyw daliad am ddirwyon cosb benodedig, dirwyon parcio, taliadau parcio neu unrhyw gostau eraill am droseddau moduro a godir ar y cyflogwr, gan gynnwys ffioedd gweinyddol.

    d. Unrhyw daliad terfynu cynnar y gellir ei briodoli i’r cyflogai.

    e. Unrhyw daliadau ychwanegol y gellir eu priodoli i'r cyflogai o dan bolisi yswiriant.

    f. Unrhyw daliadau eraill a godir gan y cyflenwr, y gellir eu priodoli i'r cyflogai.

**Rhwymedigaeth y cyflogai**

17. Bydd y cyflogai yn talu’r rhent a’r taliad am filltiredd sydd uwchlaw’r terfyn (os yw’n berthnasol) a nodir yn y dyfynbris / archeb a’r holl arian arall sy’n ddyledus o dan delerau’r cytundeb hwn, a hynny’n brydlon ar yr adegau a nodir yn y cytundeb hwn neu ar adegau eraill y bydd y cyflogwr yn eu hysbysu i'r llogwr. Rhaid i unrhyw daliad o'r fath gynnwys y swm priodol o TAW.

18. Drwy gydol y cyfnod llogi, mae’r cyflogai yn cytuno na fydd yn defnyddio’r cerbyd nac yn achosi i’r cerbyd gael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd a allai arwain at dorri unrhyw un o’r cyfamodau, y cyfyngiadau ac unrhyw amodau sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb hwn.

**Y cytundeb aberthu cyflog**

19. Ni fydd CThEF yn caniatáu i gyflogai optio i mewn, optio allan neu amrywio taliadau'r cytundeb hwn ond pan fo newid yn ffordd o fyw y cyflogai yn arwain at newid yn ei amgylchiadau ariannol "yn sylweddol". Mae'r baich profi ar y cyflogai i ddarparu tystiolaeth i ddilysu'r hawliad. Os yw CThEF yn archwilio'r cytundeb ac yn barnu nad oes newid sylweddol wedi digwydd i'ch ffordd o fyw, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i chi ad-dalu'r arbedion a gynhyrchwyd. Fel rheol gyffredinol, os yw cyflogai'n cyfnewid rhwng enillion arian parod a budd anariannol pryd bynnag y dymunant, ni fydd unrhyw fanteision treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol disgwyliedig o dan drefniant aberthu cyflog yn berthnasol**.**

**Hysbysiadau cosb, dirwyon a thaliadau**

20. I ddechrau, bydd yr awdurdod dyroddi, boed yr heddlu, awdurdod lleol neu gwmni parcio preifat, yn gwneud cais i'r DVLA er mwyn pennu ceidwad cofrestredig y cerbyd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, y cwmni prydlesu fydd hwn. Bydd swyddog o fewn contract y cwmni prydlesu yn gwneud cais i'r awdurdod dyroddi ailgyfeirio'r hysbysiad i reolwr y cynllun a fydd, yn ei dro, yn gwneud cais i ailgyfeirio'r hysbysiad i'r cyflogai.

21. Mae ailgyfeirio'r hysbysiad yn ei gwneud yn bosibl i'r cyfnod ymateb ailddechrau ac yn rhoi cyfle i'r cyflogai wneud sylwadau neu herio'r taliad. I gyflwyno achos, bydd yn ofynnol i reolwr y cynllun ddarparu enw, cyfeiriad cartref a manylion contract y cyflogai i'r awdurdod dyroddi. Os nad ydych yn dymuno i'ch manylion gael eu trosglwyddo, bydd ceidwad y cerbyd (y cwmni prydlesu) yn talu'r ddirwy ac yn ailgodi'r gost ynghyd â ffi weinyddol ychwanegol. Sylwch, pan fydd y ddirwy wedi'i thalu, ni fydd yn bosibl cyflwyno sylwadau na herio'r hysbysiad. Os nad ydych yn dymuno i'ch manylion gael eu darparu ar gyfer ailgyfeirio dirwyon, rhaid i chi hysbysu rheolwr y cynllun cyn i'r cerbyd gael ei ddanfon.

22. Bydd unrhyw daliadau cynyddol neu daliadau parcio dros ben yn cael eu hailgodi ar y cyflogai. Pan na ellir ailgyfeirio hysbysiad cosb, dirwy neu daliad i'r cyflogai, bydd yr hysbysiad am y swm i'w dalu yn cael ei roi i'r cyflogai drwy e-bost; o ganlyniad ichi fethu â rhoi eich cyfeiriad e-bost presennol i reolwr y cynllun, gallai godi taliadau ychwanegol arnoch neu gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

**Eithriad rhag atebolrwydd**

23. Ac eithrio mewn perthynas â marwolaeth neu anaf personol sy'n digwydd o ganlyniad i esgeulustod y cyflogwr neu ei gyflogeion (ac eithrio'r cyflogai sy'n prydlesu'r cerbyd) ni fydd y cyflogwr yn atebol am unrhyw ddifrod, colled, taliadau neu dreuliau sy'n deillio o ddefnyddio'r cerbyd neu unrhyw ddamwain sy'n ymwneud â'r cerbyd neu sy'n codi o ganlyniad i ddefnyddio'r cerbyd neu unrhyw ddamwain sy'n ymwneud â'r cerbyd.

24. Mae'r cyflogai drwy hyn yn ymrwymo i indemnio a pharhau i indemnio'r cyflogwr a'r cwmni prydlesu rhag unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o farwolaeth neu anaf personol, neu ddifrod neu ladrad neu golled eiddo a achosir gan, neu i'r cerbyd, oni bai bod y cyfryw farwolaeth, anaf neu ddifrod yn cael ei achosi gan esgeulustod y cyflogwr neu'r cwmni prydlesu (fel y bo'n briodol) neu eu cyflogeion priodol (ac eithrio'r cyflogai sy'n prydlesu'r cerbyd) neu eu hasiantau.

**COSTAU A YSGWYDDIR GAN Y CYFLOGAI**

**Taliad misol**

25. Bydd y cyflogai'n talu'r cyfraniadau misol y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r cytundeb ac a ddangosir ar ffurflen y dyfynbris ac a gadarnhawyd ar y cytundeb wedi'i lofnodi.

26. Wrth ymrwymo i'r cytundeb ar gyfer car prydles, bydd y cyflogai wedi pennu a derbyn unrhyw effaith y gallai'r cytundeb hwn ei chael ar ei bensiwn ymddeol neu amgylchiadau ariannol neu bersonol eraill.

27. Pan fo cyflogai'n absennol am gyfnod gyda chyflog gostyngol neu ddim cyflog o gwbl, e.e. salwch hirdymor, absenoldeb mamolaeth neu fathau eraill o absenoldeb am resymau teuluol, gall y cyflogai gadw'r cerbyd a defnyddio'r amddiffyniad cynllun a nodir yn Atodiad Un.

28. Os bydd newid yn ffordd o fyw'r cyflogai yn peri i'w gyflog ddisgyn yn is na'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol, mae gan y cyflogai yr hawl i optio allan o'r cynllun aberthu cyflog a newid y dull talu i ddidyniadau cyflog.

29. O dan rai amgylchiadau, pan nad yw'r amddiffyniad cynllun yn Atodiad Un yn berthnasol, gellir dychwelyd y cerbyd a therfynu'r contract, ond bydd hyn yn arwain at dalu taliad terfynu cynnar (gweler pwynt 102).

**Cronfa wrth gefn**

30. Mae pob cytundeb cyflogai yn cynnwys gofyniad i gyfrannu at gronfa wrth gefn a ddelir yn ganolog i liniaru'r risg i'r cyflogwr o ddarparu'r cynllun hwn i gyflogeion. Mae'r gronfa wrth gefn hefyd yn darparu yswiriant terfynu cynnar i gyflogeion ar gyfer senarios penodol a amlinellir yn Atodiad Un y ddogfen hon.

31. Nid yw'n bosibl dileu'r gofyniad i gyfrannu at y gronfa wrth gefn o'ch dyfynbris ac nid yw'n elfen ad-daladwy os na chaiff ei defnyddio.

32. Mae'r gronfa wrth gefn i'w defnyddio yn unol ag Atodiad Un y ddogfen hon

**Amrywiad i daliadau**

33. Mae costau ychwanegol y gellir eu priodoli i'r cyflogai yn cynnwys y rheini sy'n deillio o weithredoedd y cyflogai neu o gamddefnydd, esgeulustod neu dorri amodau'r contract sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon neu wedi eu cynnwys yn llawlyfrau gwneuthurwyr a chyhoeddiadau eraill a gyhoeddir o bryd i'w gilydd. Bydd methu â sicrhau bod y cerbyd yn cael ei wasanaethu ar yr adegau a argymhellir neu fethu â chynnal lefelau aer a hylif cywir yn gyfystyr ag esgeulustod neu dor-cytundeb, a gallai arwain at godi costau ychwanegol ar y cyflogai.

34. Bydd y taliad ar gyfer y car prydles yn seiliedig ar y pris diweddaraf a gyhoeddwyd gan y cwmni prydles sy'n berthnasol ar adeg danfon y cerbyd. Gall y pris amrywio o gymharu â'r dyfynbris a ddarparwyd ar adeg cyflwyno'r cais. Bydd y cyflogwr a rheolwr y cynllun yn gwneud pob ymdrech resymol i hysbysu cyflogai am newidiadau, ond ni fydd yn atebol am gostau ychwanegol.

35. Os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r cerbyd drwy statud, y cyflogai fydd yn talu'r gost.

36. Bydd y cyflogai yn talu am yr holl danwydd / trydan, yr holl hylifau ychwanegol i gerbydau a chostau glanhau'r car.

37. Bydd y cyflogai yn talu unrhyw ddirwyon neu gosbau a gyflwynir yn erbyn y car prydles ac a roddir gan unrhyw awdurdod lleol neu heddlu. Bydd y cyflogai hefyd yn talu unrhyw daliadau parcio a godir gan gwmni parcio preifat yn unol â Deddf Diogelu Rhyddidau 2012. Bydd y cyflogai hefyd yn talu unrhyw gostau cyfreithiol, gweinyddol neu gynnal a chadw cysylltiedig rhesymol sy'n deillio o weithredoedd o'r fath. O dan amgylchiadau penodol, mae'n bosibl y codir tâl gweinyddol.

38. Bydd y cyflogai yn talu unrhyw daliadau ychwanegol o dan bolisi yswiriant (gweler yr adran Cwestiynau cyffredin am fanylion), ar gyfer hawliadau am ddifrod damweiniol, tân neu ladrad, gan gynnwys gosod ffenestri blaen, gwydr ffenestri, drychau, a phrif oleuadau newydd fel y maent yn berthnasol i'r polisi yswiriant sydd mewn grym ar y pryd.

39. Bydd y cyflogai yn talu costau atgyweirio'r car, a'r costau o osod rhannau newydd arno, sy'n angenrheidiol o ganlyniad i gam-drin neu esgeuluso'r cerbyd. Rhaid i unrhyw gostau o'r fath, y mae'r rheolwr cynllun o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan gamdriniaeth neu esgeulustod o'r fath, gael eu had-dalu gan y cyflogai i reolwr y cynllun ar ôl derbyn cyfrif am y swm sy'n ddyledus.

**Telerau'r contract**

40. Ac eithrio'r hyn y darperir ar ei gyfer yn benodol yn y cytundeb hwn, nid yw'r cyflogwr yn cyflenwi'r cerbyd gydag unrhyw warant nac yn ddarostyngedig i unrhyw warant ddatganedig na goblygedig gan statud neu fel arall o ran galluedd, oedran, ansawdd, cyflwr neu addasrwydd at unrhyw ddiben o gwbl.

41. Rhaid i'r cyflogai beidio â gwerthu, aseinio, ail-logi, gosod arwystl ar y cerbyd ar log, na'i feddiannu, na cheisio gwneud hynny, ac eithrio fel yr awdurdodir o dan y telerau a'r amodau.

42. Bydd gweithred neu anweithred unrhyw berson a awdurdodwyd gan y cyflogai i ddefnyddio'r cerbyd at ddibenion y cytundeb yn cael ei ystyried yn weithred neu'n anweithred y cyflogai.

43. Rhaid i'r cyflogai ganiatáu i gynrychiolwyr y cyflogwr neu'r contractwr archwilio cyflwr y car ar unrhyw adeg resymol.

44. Ar yr amod bod y cyflogai yn parhau i fod yn gymwys o dan yr amodau a'r telerau hyn, fel arfer bydd ganddo'r opsiwn ar ddiwedd cyfnod y contract i wneud un o'r canlynol:

    a. Ymrwymo i gytundeb newydd
    b. Ymestyn y cytundeb
    c. Dychwelyd y cerbyd
    d. Prynu'r cerbyd drwy reolwr y cynllun

**Iechyd a diogelwch yn y gwaith**

45. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, a ddiwygiwyd yn 1999, yn nodi bod cerbyd yn 'weithle. Mae iechyd a diogelwch, fel y mae'n berthnasol i gerbydau modur, yn gosod 'dyletswydd gofal' lwyr ar waith rheoli sy'n berthnasol i ddefnyddwyr cerbydau.

**Cyfrifoldeb y cyflogai**

46. Er y bydd y cyflogwr yn rheoli risg ffyrdd 'yn y gwaith' drwy bolisi trafnidiaeth y sefydliad, rhaid i gyflogeion barhau i fod yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill ar y ffordd. Rhaid i gyflogeion gadw cyfrifoldeb drostynt eu hunain i yrru'n ddiogel gan gydymffurfio â'r Ddeddf Traffig Ffyrdd a Rheolau'r Ffordd Fawr. O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, dylai cyflogeion gydweithio â'r cyflogwr i alluogi'r cyflogwr i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o ran iechyd a diogelwch. Yn hyn o beth, dylent gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt, a dylent ddefnyddio'r offer a ddarperir iddynt yn gywir.

47. Dylai'r cyflogai / y llogwr, a phob gyrrwr a enwir gan y cyflogai i yrru'r cerbyd, gydymffurfio â'r Polisi Gyrwyr a Cherbydau a'r Polisi Cynllun Ceir a bod yn gyfarwydd â hwy.

**Defnyddio'r car**

48. Fel arfer, ni fydd y car yn cael ei ddefnyddio ond gan y cyflogai a chan unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi gan reolwr y cynllun, ar yr amod eu bod yn yrwyr â'r cymwysterau priodol sydd â thrwydded yrru ddilys ac wedi'u cynnwys ar y polisi yswiriant. Mae defnydd busnes wedi'i gyfyngu i'r adegau pan fydd y cyflogai yn defnyddio'r car ar gyfer busnes swyddogol y cyflogwr.

49. Bydd y cyflogai yn cyflwyno copi o drwydded yrru ar gyfer pob gyrrwr a enwir gan y cyflogai i yrru'r cerbyd, a bydd yn gyfrifol am hysbysu rheolwr y cynllun am unrhyw newidiadau, gan gynnwys unrhyw droseddau gyrru neu gosbau a gyflwynir yn erbyn y gyrrwr enwebedig. Bydd y llogwr hefyd yn hysbysu rheolwr y cynllun am unrhyw salwch neu anabledd a ddioddefir gan unrhyw yrrwr cymeradwy, a gall hyn effeithio ar yswiriant cerbyd y cyflogwr.

50. Dim ond at ddibenion busnes swyddogol a dibenion cymdeithasol, domestig a phleser arferol eich cyflogwr y gellir defnyddio'r cerbyd. Ni ellir defnyddio'r cerbyd ar gyfer unrhyw weithgareddau busnes sefydliad arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig datganedig gan reolwr y cynllun.

51. Rhaid i'r cyflogai beidio â defnyddio, na chaniatáu i'r cerbyd gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n torri unrhyw is-gymalau yn y cymal hwn na'i logi, ei ddefnyddio fel gwobr, fel rhan o gystadleuaeth, mewn treialon nac i osod cyflymder ar gyfer cerbydau eraill. Dim ond gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig gan reolwr y cynllun y gellir defnyddio'r cerbyd ar gyfer dysgu rhywun sut i yrru.

52. Caniateir defnyddio’r cerbyd yn Ewrop ar yr amod y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan reolwr y cynllun. Nid yw costau cynnal a chadw a gwasanaethau torri i lawr yn cael eu talu pan fydd y car dramor; y cyflogai fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau arbennig ar gyfer y cyfnod hwn. Yr yswiriant lleiaf sy'n dderbyniol yw'r hyn a ddarperir o dan yswiriant yr AA ar gyfer torri i lawr yn Ewrop, neu gyfwerth. Bydd cyflogeion yn cael gwybod am y gofyniad cynnal a chadw pan roddir caniatâd ysgrifenedig.

53. Bydd angen i fodurwyr gario cerdyn gwyrdd ffisegol tra’u bod yn gyrru yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a rhai gwledydd eraill. Bydd angen ail gerdyn gwyrdd pan fyddant yn tynnu trelars â phwysau o 750kg neu fwy neu drelars â breciau (e.e. trelar cymalog, carafán, bocs ceffylau).
Bydd y cerdyn gwyrdd yn cael ei ddyroddi gan reolwr y cynllun; rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd. Bydd rheolwr y cynllun hefyd yn rhoi cyngor ar gael prawf perchnogaeth (teitl), gofynion o ran y drwydded yrru ac offer diogelwch.

54. Os na fydd y cerbyd yn addas ar gyfer ei ddefnyddio ar y ffordd fawr yn ystod y cyfnod llogi am unrhyw reswm, bydd rhwymedigaethau'r cyflogai i wneud y taliadau llogi i'r cyflogwr o dan y cytundeb hwn, ynghyd ag unrhyw oblygiadau treth, yn aros yr un fath.

55. Dylid parcio'r cerbyd bob amser mewn modd sy'n lleihau'r risg o ddifrod neu ladrad a dylid diogelu'r cerbyd. Dylai cyflogeion, pryd bynnag y bo modd, osgoi gadael y cerbyd wedi ei barcio ar briffordd gyhoeddus dros nos. Rhaid i'r llogwr hysbysu rheolwr y cynllun am unrhyw newid i’r cyfeiriad lle bydd y cerbyd yn cael ei barcio neu’n cael ei gadw mewn garej.

56. Cerbydau wrth gefn: Nid oes gan y cyflogai hawl awtomatig i gerbyd yn lle’r car prydles os nad yw'r car hwnnw ar gael oherwydd gwaith atgyweirio neu waith gwasanaethu arferol. Cynigir cerbyd wrth gefn fel opsiwn ychwanegol ar ddechrau’r contract, a bydd y cyflogai yn talu’r gost lawn. Ni ellir ychwanegu cyfleuster y cerbyd wrth gefn at y contract ar ôl iddo gychwyn.

57. Caniateir i’r cyflogai dynnu carafán, cwch neu drelar ar yr amod y ceir caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni prydlesu drwy reolwr y cynllun. Ni cheir cymeradwyaeth os na fernir bod cerbyd dewisol y cyflogai yn addas ar gyfer yr hyn y bwriedir ei dynnu. Ni chaniateir tynnu unrhyw garafán, cwch neu drelar ond yn unol â'r holl ofynion cyfreithiol a manyleb y gwneuthurwr.

**Ategolion**

58. Gall y cyflogai ofyn am ychwanegu unrhyw ategolion a gymeradwyir gan y cwmni prydlesu, naill ai ar yr adeg yr archebir y cerbyd, neu ar unrhyw adeg wedi hynny, a hynny’n amodol ar gael cymeradwyaeth ysgrifenedig. Yna, bydd deliwr cymeradwy yn ychwanegu'r rhain at y cerbyd, a’r cyflogai fydd yn talu amdanynt. Ni fydd gan y cyflogai yr hawl i symud o'r cerbyd, na chyn nac ar ôl i gyfnod y contract ddod i ben, unrhyw ategolion o'r fath sydd wedi'u gosod heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan y cwmni prydlesu. Ac eithrio'r hyn a ganiateir uchod, ni cheir gosod ategolion ar y cerbyd.

59. Codir treth incwm ar yr holl ategolion a osodir ar y cerbyd. Felly, cyfrifoldeb y cyflogai yw hysbysu rheolwr y cynllun am bob eitem a’i phris sylfaenol llawn heb gynnwys TAW, a’r pris a dalwyd.

**Cynnal a chadw a gwaith atgyweirio**

60. Mae'r cynllun yn ymgorffori gwaith cynnal a chadw llawn, sy'n cynnwys cost yr holl waith gwasanaethu yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr, gwaith atgyweirio mecanyddol neu drydanol, a gwaith gosod teiars, batris ac egsôsts newydd, ac eithrio'r sefyllfaoedd canlynol:

    a. Pan fo’r angen i atgyweirio neu osod rhannau newydd yn digwydd o ganlyniad i unrhyw achos o dorri amodau’r cytundeb hwn gan y cyflogai (pryd y bydd y cyflogai yn gyfrifol) neu

    b. Pan na fyddai’n economaidd i atgyweirio’r cerbyd ym marn y cwmni llogi ar gontract.

61. Mae gwasanaethau torri i lawr ac adfer (gan gynnwys Relay a Home Start) wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae aelodaeth o’r gwasanaeth adfer yn seiliedig ar drefniant fflyd ac nid yw'n darparu cyfleusterau ar lefel aelodaeth gorfforaethol.

62. Mewn rhai achosion, bydd gwaith atgyweirio teiars (h.y. yn achos tyllau cyson) yn dod o dan gyfrifoldeb ariannol y cyflogai, ond yr asiant gwasanaethu fydd yn gyfrifol yn ariannol am ddiffygion yn y teiars sy’n deillio o broblem weithgynhyrchu. Dosbarthir difrod a achosir gan ddamweiniau neu yrru dros falurion ac ati yn ddifrod damweiniol a byddant yn destun taliadau yswiriant ychwanegol.

63. Bydd deliwr cymeradwy, sy'n dderbyniol i'r cwmni prydles, rheolwr y cynllun, a'r cyflogai, yn gwneud yr holl waith gwasanaethu, cynnal a chadw ac atgyweirio. Rhaid i ddeliwr masnachfraint wneud yr holl waith gwarant. Gallai gwaith cynnal a chadw / atgyweirio nad yw wedi’i awdurdodi arwain at dynnu cerbyd ar log oddi wrth y cyflogai.

64. Bydd gwybodaeth i yrwyr ar gyfer y cerbyd ar gael i'r cyflogai pan fydd y car yn cael ei ddosbarthu, a bydd hyn ar ffurf llawlyfr, ffeil cyswllt VCF neu’r adran Cwestiynau cyffredin ar y wefan. Yn ogystal rhaid i'r cyflogai ymgyfarwyddo â'r cyfarwyddiadau sydd wedi eu cynnwys ynddynt ar gyfer ymdrin ag atgyweiriadau i'r cerbyd, boed hynny o ganlyniad i ddamwain, neu fel arall, a chydymffurfio â hwy.

65. Rhaid i’r cyflogai beidio ag ymrwymo rheolwr y cynllun, na’r cwmni llogi ar gontract i unrhyw wariant ar gyfer gwaith atgyweirio heb gydsyniad penodol gan y cwmni prydlesu, oni bai ei fod yn gwneud hynny mewn argyfwng eithafol y tu allan i oriau gwaith.

66. Bydd disgwyl i gyflogeion drefnu gwaith gwasanaethu / atgyweirio yn eu hamser eu hunain.

**Cyfrifoldebau'r cyflogai**

67. Mae’r cyflogai yn gyfrifol am y canlynol yn benodol:

    a. Cadw'r car yn lân.

    b. Gwirio'n rheolaidd lefelau’r olew, y dŵr, ac unrhyw hylifau eraill, y goleuadau, y batri, y breciau a gwasgedd a chyflwr teiars, a chymryd y camau cywiro angenrheidiol.

**Sylwer:** Rhaid rhoi gwybod i reolwr y cynllun ar unwaith am deiars sydd wedi gwisgo neu wedi'u difrodi'n ormodol, ac ni ddylid defnyddio'r car oni bai bod y teiars yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. Ni chaniateir i'r cyflogai newid teiars na batri'r car heb gydsyniad rheolwr y cynllun.

c. Dylid cymryd pob rhagofal rhesymol yn erbyn difrod o ganlyniad i rew, a sicrhau bod yr hylif gwrthrewi yn system oerydd yr injan o gryfder digonol.

d. Glynu wrth unrhyw gyflymderau "rhedeg i mewn" a argymhellir a chydymffurfio ag unrhyw argymhellion eraill ynghylch rhedeg y car yn ystod cyfnod "rhedeg i mewn".

e. Rhoi gwybod am ddiffygion i'r deliwr priodol a rheolwr y cynllun yn brydlon.

f. Sicrhau bod yr atgyweiriwr priodol yn gwneud gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw ar yr adegau a argymhellir yn llawlyfr gwneuthurwr y car.

g. Sicrhau bod prawf MOT yn cael ei gynnal mewn da bryd er mwyn i'r cwmni prydles dderbyn y dystysgrif a chael Trwydded Cronfa'r Ffordd ddilys. Dylai'r cyflogai sicrhau bod yr asiant gwasanaethu yn cyflwyno'r dystysgrif MOT i'r contractwr yn uniongyrchol, ynghyd â'i anfoneb am y gwaith atgyweirio. Pan fo prawf MOT yn cyd-ddigwydd â diwedd y contract, rhaid cwblhau'r MOT cyn y gellir casglu'r cerbyd.

h. Sicrhau diogelwch rhesymol y car bob amser. Y cyflogai fydd yn talu unrhyw gostau garej, a rhaid iddo roi gwybod yn ysgrifenedig i reolwr y cynllun am unrhyw newid i'r cyfeiriad.

i. Cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau ac argymhellion yn llawlyfr y gwneuthurwr (ar ffurf electronig neu gopi caled) a'r holl gyfarwyddiadau a chyngor arall a roddir gan y contractwr neu'r cyflogwr.

j. Peidio â newid, addasu na thynnu unrhyw rannau o'r cerbyd, na newid unrhyw un o'r nodau adnabod neu rifau, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni prydlesu. Bydd gosod platiau rhif personol heb gydsyniad yn annilysu'r yswiriant.

k. Peidio â gorlwytho, gorweithio, na rhoi pwysau ar y cerbyd fel arall nad yw wedi'i gynllunio ar eu cyfer, na defnyddio'r cerbyd hwnnw i gludo nwyddau nad yw'n addas ar eu cyfer.

l. Hysbysu rheolwr y cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw ddiffyg neu fethiant yn yr odomedr neu'r milomedr sydd ynghlwm wrth y cerbyd. Os digwyddir hynny, gall y cyflogwr, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, amcangyfrif y milltiroedd na chawsant eu cofnodi ar sail y pellter cyfartalog a deithiwyd yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf cyn i'r cyfryw fethiant neu ddiffyg gael ei ddarganfod, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'n dewis ei hystyried.

68. Mae'r gostyngiad cyflog y cytunir arno gyda'r cyflogai yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd y car yn cael ei gadw mewn cyflwr da ac i'r un safon uchel â phe bai'r cyflogai yn berchen ar y car. Felly, dylid cynnal y safon hon er budd yr holl bartïon, yn enwedig o ran sicrhau bod y car o'r gwerth mwyaf posibl pan gaiff ei ddychwelyd ar ddiwedd y cyfnod llogi.

**AR DDIWEDD CYFNOD Y CONTRACT**

69. Ar ddiwedd y cyfnod llogi ar gontract, rhaid i'r cyflogai ddanfon y cerbyd i'r cwmni prydlesu ar unwaith, mewn cyflwr da (dim ond traul a gwisgo teg a dderbynnir) ac yn rhydd rhag unrhyw ddiffygion ac eithrio'r rhai y mae'r cyflogai eisoes wedi rhoi gwybod i reolwr y cynllun amdanynt. Bydd taliadau'n parhau nes bod y car wedi cael ei gasglu.

70. Bydd cyflwr y car yn cael ei werthuso ym mhresenoldeb y cyflogai, ac mae'n bosibl y bydd yn ofynnol iddo ad-dalu'r costau ar gyfer unrhyw waith atgyweirio y mae'r cwmni prydlesu yn barnu bod angen ei wneud i wella cyflwr y cerbyd gan ystyried traul a gwisgo normal. Nid yw'r cwmni prydlesu o dan unrhyw rwymedigaeth i gwblhau'r atgyweiriadau ond mae'n cadw pob hawl i godi tâl am y gost atgyweirio amcangyfrifedig.

71. Os na chaiff y cerbyd ei ddanfon yn ôl pan ddaw'r cytundeb i ben, bydd gan reolwr y cynllun hawl i adennill meddiant o'r cerbyd, yn ddirybudd, a rhaid i'r cyflogai ad-dalu iddo'r holl gostau a threuliau sy'n gysylltiedig ag adennill y cerbyd y mae rheolwr y cynllun wedi mynd iddynt.

72. Bydd yn ofynnol i'r cyflogai dalu unrhyw ffioedd casglu a derfynwyd a godir gan y cwmni prydlesu os na ellir casglu'r cerbyd oherwydd nad yw'r cerbyd yn addas i'w defnyddio ar y ffordd fawr neu oherwydd nad yw'r cyflogai neu ei gynrychiolydd ar gael i drosglwyddo'r cerbyd. Ni fydd y cwmni prydlesu'n gallu casglu'r cerbyd oddi wrth y cyflogai os nad yw'r cerbyd mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio ar y ffordd fawr. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: teiars sydd o dan y terfyn cyfreithiol, nid oes gan y cerbyd MOT dilys, neu mae un neu ragor o oleuadau rhybudd y cerbyd ymlaen.

**Prynu'r car ar log**

73. Ar ddiwedd y cyfnod llogi ar gontract, neu pan derfynir y contract yn gynnar, cynigir cyfle i'r cyflogai brynu'r cerbyd ar gyfradd y cytunir arni gyda'r cwmni prydlesu ac yn amodol ar dalu taliad gweinyddol a godir gan reolwr y cynllun.

**Teitl perchenogol i'r cerbyd**

74. Nid oes dim yn y cytundeb hwn y gellir ei ddehongli ei fod yn awgrymu y gall, neu y bydd teitl perchenogol i'r cerbyd yn cael ei drosglwyddo i'r cyflogai ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, rhwng dyddiad y cytundeb a'r amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddychwelyd i'r cyflogwr, mae'r cyflogai yn gyfrifol am unrhyw hysbysiadau a gyflwynir neu achosion a gychwynnir yn erbyn y cyflogwr neu'r cwmni prydlesu mewn perthynas ag unrhyw drosedd yr honnir ei bod wedi'i chyflawni neu daliad yswiriant ychwanegol yr honnir iddo fod wedi'i godi mewn perthynas â'r cerbyd yn ystod y cyfnod a nodir uchod, a bydd y cyflogwr a'r cwmni prydlesu yn rhydd i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r pethau hyn y mae'r cyflogwr neu'r cwmni prydlesu yn ôl eu disgresiwn rhesymol yn ystyried eu bod yn addas

(gan gynnwys talu unrhyw ddirwyon, cosbau neu daliadau yswiriant ychwanegol, p'un a yw'n ofynnol o dan y gyfraith ai peidio, neu amddiffyn achos o'r fath), a bydd y cyflogai yn indemnio'r cyflogwr rhag y cwmni prydlesu o ran dirwyon, cosbau, costau taliadau yswiriant ychwanegol neu dreuliau cyfreithiol ac, yn ogystal, bydd yn indemnio'r cyflogwr rhag y costau gweinyddol cysylltiedig y mae'n mynd iddynt. Dylai'r cyflogai hysbysu'r rheolwr llinell am unrhyw ffioedd, cosbau neu daliadau yswiriant ychwanegol yr eir iddynt wrth i'r cyflogai gyflawni ei ddyletswyddau.

**GOFYNION YSWIRIANT**

75. Rhaid i gyflogeion ymgyfarwyddo â'r trefniadau yswiriant a byddant, fel rhan o'r cais, yn rhoi manylion holl yrwyr ychwanegol y cerbyd a lle bydd y cerbyd yn cael ei gadw. Rhaid i gyflogeion gyflwyno copi o drwydded yrru pob gyrrwr a chod gwirio'r DVLA, fel sy'n ofynnol gan y cyflogwr, a hysbysu rheolwr y cynllun am unrhyw newidiadau. Bydd copi o bolisi a rhestr yr yswiriant yn cael eu cadw gan reolwr y cynllun a byddant ar gael i'r cyflogai ar gais.

76. Bydd ceir ar log, cerbydau wrth gefn a cheir cwrteisi yn cael ei defnyddio ar fenter y cyflogai. Rhaid i gyflogeion sicrhau eu bod yn hysbysu rheolwr y cynllun drwy e-bost (MID@kafleet.com) pan fydd cerbyd wrth gefn neu gar cwrteisi'n cael ei ddefnyddio, gan ddarparu manylion llawn y car, yn cynnwys y rhif cofrestru a'r dyddiadau pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio.

77. Ni fydd cyflogeion yn caniatáu i yrwyr eraill ddefnyddio'u cerbyd heb gydsyniad penodol gan reolwr y cynllun, ac efallai y codir taliadau am yrwyr ychwanegol.

78. Bydd rheolwr y cynllun yn trefnu ac yn adnewyddu'r yswiriant yn awtomatig bob blwyddyn. Bydd cyflogeion yn sicrhau eu bod yn cadw'r yswiriant mewn grym ac nad ydynt yn annilysu'r yswiriant drwy unrhyw weithred neu anweithred.

79. Yn achos cais am osod ffenestr flaen neu wydr yn unig yn lle'r hen un (a bod y polisi yswiriant sydd mewn grym ar y pryd yn cynnwys taliad yswiriant ychwanegol) bydd rheolwr y cynllun yn talu'r taliad ychwanegol ac yn ei adennill oddi wrth y cyflogai drwy gerdyn credyd / debyd.

80. Efallai bod y polisi safonol yn darparu yswiriant cyfyngedig ar gyfer unrhyw golled neu ddifrod i eiddo personol yn y cerbyd yswiriedig neu arno os ydynt yn cael eu colli neu eu difrodi.

81. Mae pob eitem o eiddo personol sy'n cael ei adael yn y cerbyd ar fenter y cyflogai, ac ni fydd y cyflogwr yn derbyn unrhyw atebolrwydd os ydynt yn cael eu colli neu eu difrodi.
Cynghorir cyflogeion i sicrhau bod yswiriant yn ddigonol ar gyfer eu hanghenion; dylid trefnu yswiriant ychwanegol os oes angen. Mae eiddo personol fel arfer yn cael eu cynnwys o dan bolisïau cynnwys cartrefi domestig.

82. Nid yw'r premiwm yswiriant a ddyfynnir yn cynnwys indemniad yn erbyn colled ariannol o ganlyniad i derfynu'r cytundeb llogi cerbyd ar gontract yn gynnar.

**Difrod damweiniol**

83. Os bydd unrhyw ddamwain yn digwydd a allai arwain at hawliad anaf personol, rhaid i'r cyflogai roi gwybod am y digwyddiad i reolwr y cynllun ar unwaith. Rhaid postio unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gan drydydd parti at reolwr y cynllun yn ddi-oed. Mae gofyniad cyfreithiol i gydnabod hawliadau am anafiadau personol o fewn amserlen benodedig, gallai methu â gwneud hynny niweidio unrhyw amddiffyniad a gallai arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y cyflogwr a/neu'r gyrrwr.

84. Mae cyflogeion yn gyfrifol am hysbysu rheolwr y cynllun am bob damwain a lanlwytho lluniau o gamera dashfwrdd pan fo'n berthnasol, a hynny drwy'r porth ar-lein yn ystod y diwrnod gwaith canlynol. Gall unrhyw hawliadau nad ydynt yn cael eu hadrodd i reolwr y cynllun o fewn 90 diwrnod ddod yn annilys, ac yn yr achos hwnnw bydd yr holl gostau'n cael eu talu gan y cyflogai. Dylai cyflogeion hefyd wneud yr holl waith atgyweirio sydd ei angen i adfer y cerbyd i'w gyflwr blaenorol cyn y ddamwain – cyn gynted â phosibl ar ôl cael awdurdod.

85. Rhaid dechrau gwaith atgyweirio o fewn 90 diwrnod i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am y digwyddiad; gallai methu â chychwyn atgyweiriadau o fewn yr amserlen hon olygu bod yr hawliad yn cael ei derfynu a bod y cyflogai'n talu'r holl gostau.

86. Rhaid i gyflogeion roi manylion llawn y ddamwain a nodi cod post / lleoliad y ddamwain. Yn ogystal, rhaid iddynt dynnu lluniau o'r lleoliad, cyn i unrhyw gerbydau gael eu symud, gan gynnwys cylchfannau, cyffyrdd, marciau ffordd, amodau'r ffordd / y lleoliad, a goleuadau ac arwyddion traffig. Dylid tynnu lluniau o gerbyd y trydydd parti ac unrhyw ddifrod, yn ogystal ag unrhyw beth arall a fydd yn helpu i brofi atebolrwydd a bai. Rhaid i bob braslun fod yn gywir ac i raddfa, a bydd argraffu'r lleoliad o Google Maps yn gymorth mawr o ran sicrhau cywirdeb.

87. Pan fyddant wedi'u gosod, dylid gadael camerâu dashfwrdd ymlaen bob amser ac, os yw damwain yn digwydd, dylai'r cyflogai dynnu'r cerdyn cof o'r camera dashfwrdd ar unwaith er mwyn cadw'r fideo yn ddiogel. Rhaid anfon y fideo at reolwr y cynllun cyn gynted â phosibl.

88. Os nad yw'r difrod a achoswyd yn ddifrifol, gall y cyflogai ddewis talu am gostau'r gwaith atgyweirio yn hytrach na chyflwyno hawliad, ar yr amod ei fod yn hysbysu rheolwr y cynllun am hyn.

89. Os yw'r cerbyd yn cael ei ddifrodi'n llwyr, bydd y cyflogai yn parhau i dalu'r taliad prydles misol y cytunwyd arno hyd nes y bydd setliad yn cael ei wneud. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gost terfynu cynnar o ganlyniad i ddifrod llwyr yn daladwy gan y cyflogai os bernir mai bai'r cyflogai yw'r ffaith bod y ddamwain wedi digwydd.

90. **Y math o yswiriant a ddarperir gan y cyflogwr ac a weinyddir gan reolwr y cynllun**

    a. Yswiriant fflyd cynhwysfawr yn cwmpasu pob risg, gan gynnwys yswiriant ar gyfer difrod damweiniol, tân, lladrad a ffenestr flaen i'ch cerbyd, a difrod i gerbyd trydydd parti a difrod i eiddo trydydd parti.

    b. Gall unrhyw berson yrru'r cerbyd gyda chaniatâd ysgrifenedig rheolwr y cynllun.

c. Cyfyngir ar ddefnydd cymdeithasol, domestig a phleser mewn cysylltiad â defnydd preifat o'r cerbyd a defnydd busnes y cyflogwr.

d. Nid yw'r cerbyd wedi'i yswirio at ddefnydd busnes unrhyw fusnes neu gyflogaeth arall.

e. Nid yw'r polisi yn cynnwys unrhyw geir sy'n eiddo preifat.

91. Rhaid i gyflogeion sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â chyfyngiadau'r yswiriant ac, os oes angen, ceisio cyngor gan reolwr y cynllun cyn defnyddio'r cerbyd ar gyfer unrhyw weithgaredd arall.

92. **Taliadau ychwanegol ar gyfer difrod damweiniol**

Mae'r yswiriant yn amodol ar daliadau ychwanegol ar y polisi: o dan delerau ac amodau'r cytundeb hwn, bydd y taliadau dros ben yn cael eu trin fel a ganlyn:

"Ym mhob achos" bydd y cyflogai (y gyrrwr) yn atebol i dalu'r taliad ychwanegol. Os, wedi hynny, bydd unrhyw hawliad trydydd parti yn llwyddiannus, gwneir ad-daliadau yn unol â hynny.

Gall cyfyngiadau defnydd a thaliadau ychwanegol ar y polisi newid bob blwyddyn ar adeg adnewyddu'r yswiriant. Fe'ch cynghorir i wirio gyda rheolwr y cynllun beth yw'r taliad ychwanegol presennol os oes damwain yn digwydd neu os yw gyrwyr ifanc neu ddibrofiad yn defnyddio'r car.

Sylwch ei bod er budd pennaf y cyflogai i sicrhau bod nifer y gyrwyr ychwanegol a enwir cyn lleied â phosibl.

**98. Adrodd hawliadau**

Rhaid rhoi gwybod am bob hawliad ar ein gwefan www.knowlesfleet.com, gan ddewis 'report an accident' neu drwy ffonio 01206 257220.

Os nad oes modd gyrru'r cerbyd, dylai'r cyflogai gysylltu â'r gwasanaeth torri i lawr ac adfer er mwyn ei gludo at yr atgyweiriwr cymeradwy agosaf. Os oes modd gyrru'r cerbyd, dylid rhoi gwybod am y ddamwain drwy'r porth ar-lein lle gall y llogwr ddewis atgyweiriwr. Cyfrifoldeb y cyflogai yw trefnu amcanbris ar gyfer y gwaith atgyweirio gyda'r atgyweiriwr a ddewiswyd.

**99. Car cwrteisi o ganlyniad i ddamwain**

Caiff car cwrteisi ei ddarparu pan fydd y cerbyd yn cael ei atgyweirio, os oes car ar gael. Os yw'r cerbyd wedi'i ddifrodi'n llwyr, caiff car ar log ei ddarparu am y 48 awr gyntaf ar ôl y ddamwain, yn rhad ac am ddim, er mwyn galluogi'r cyflogai i wneud trefniadau angenrheidiol ar gyfer cael cerbyd newydd yn ei le. Ar ddiwedd y 48 awr bydd y car ar log yn cael ei gasglu oddi wrth y cyflogai, neu fe allant barhau i ddefnyddio'r cerbyd ond byddant yn gyfrifol am y costau o'i logi.

**Terfynu'r contract yn gynnar**

**100.** Bydd unrhyw gostau sy'n deillio o derfynu'r contract yn gynnar naill ai'n cael eu talu gan y cyflogai neu'n dod o dan y gronfa wrth gefn, fel y disgrifir yn Atodiad Un yn y ddogfen hon.

**Newidiadau i amodau cyflogaeth**

**101.** Os yw'r cyflogai'n gadael ei gyflogaeth ac yn symud i sefydliad arall, gall y cerbyd drosglwyddo i'r cyflogwr newydd drwy gytundeb rhwng y cyflogwr newydd a'r cyflogwr presennol ac yn amodol ar gytundeb y cwmni prydlesu a thalu taliad gweinyddol. Os yw'r cyflogai'n newid swydd neu'n ymgymryd rôl newydd yn wirfoddol gyda'i gyflogwr presennol, efallai y bydd yn dewis cadw'r car. Os yw'r cyflogai'n dewis dychwelyd y cerbyd, bydd yn ofynnol iddo dalu cosb ariannol o ganlyniad i derfynu'r contract yn gynnar.

**102.** Os bydd y car yn cael ei ildio'n gynnar am unrhyw reswm nad yw wedi'i nodi uchod, efallai bydd y cyflogai yn atebol am dalu'r taliad terfynu cynnar a osodwyd gan y cwmni prydlesu. Cyfrifir y ffi ar sail matrics penodol ac mae'n gostwng yn ystod pob blwyddyn o'r contract. Ceir manylion yn y rhestr isod.

| **BLWYDDYN Y TERFYNIAD** | Y CYFNOD PRYDLESU A AMSERLENNWYD | |
|---|---|---|
| | PRYDLES DWY FLYNEDD | PRYDLES TAIR BLYNEDD |
| **BLWYDDYN 1** | **Deufis** | **Pum mis** |
| **BLWYDDYN 2** | **Mis** | **Tri mis** |
| **BLWYDDYN 3** | | **Mis** |

Bydd rheolwr y cynllun y yn darparu'r gost terfynu wirioneddol r i'r cyflogai ar adeg cyflwyno'i gais a bydd yn ei chadarnhau yn ystod y cyfnod prydlesu ar gais.

**Sylwer: Mae'n bwysig iawn sicrhau y rhoddir o leiaf deufis o rybudd cyn terfynu'r contract yn gynnar. Gallai methu â rhoi rhybudd digonol arwain at oedi taliad terfynol y cyflog sy'n ddyledus, er mwyn datrys unrhyw broblemau.**

**103.** Pan derfynir cytundeb yn gynnar fel y nodir uchod, bydd y cyflogai yn atebol am dalu'r canlynol:

a. Unrhyw daliad terfynu cynnar ynghyd â thaliad gweinyddol yn ogystal.

b. Unrhyw gostau sy'n deillio o gyflwr y car neu daliadau am filltiredd sydd uwchlaw’r terfyn ar adeg ei drosglwyddo.

**104.** Cynghorir cyflogeion i geisio cyngor cyn terfynu’r cytundeb hwn.

**Cyffredinol**

**105.** Ni fydd unrhyw roi o amser, nac unrhyw gonsesiwn neu faddeuant arall a roddir gan, neu drwy esgeulustod y cyflogwr i'r cyflogai, yn effeithio ar hawliau a rhwymedïau'r cyflogwr isod.

**106.** Ni fydd y cyflogai yn trosglwyddo, rhoi budd nac ildio’r cytundeb hwn mewn unrhyw fodd, nac yn addo nac yn honni ei fod yn addo credyd y cyflogwr.

**107.** Bydd pob diwygiad i'r cytundeb hwn yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.

**108.** Rhaid i’r cyflogai roi gwybod i reolwr y cynllun ar unwaith am unrhyw newid i’r cyfeiriad lle bydd y car yn cael ei gadw.

**Cyfathrebu**

**109.** Bydd unrhyw gyfathrebu sy’n ofynnol neu a ganiateir o dan delerau’r cytundeb hwn (oni bai y darperir yn wahanol) yn ysgrifenedig ac yn cael ei ddanfon yn bersonol, drwy bost cofrestredig neu drwy e-bost fel y bo’n briodol at: Knowles Associates Total Fleet Management Ltd, Red Lion House, Great Bentley, Essex CO7 8QG neu support@knowlesfleet.com

**Atodiad Un**

| Senario'r cyflogai | Cyfrifoldeb | Eglurhad |
| --- | --- | --- |
| Ymddiswyddo / diswyddo ar sail wirfoddol | Y cyflogai | Byddai'r cyflogai yn atebol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Terfynu contract | Y cyflogai | Os yw'r cyflogai'n torri ei gontract cyflogaeth, gan arwain at derfynu ei gyflogaeth, y cyflogai fydd yn gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Ymddeol | Y cyflogai | Os yw'r cyflogai'n dewis ymddeol cyn diwedd y cytundeb, yna'r cyflogai fydd yn gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Colli trwydded (am reswm anfeddygol, h.y. gwaharddiad neu atal trwydded dros dro) | Y cyflogai | Byddai'r cyflogai'n atebol am dalu'r gosb terfynu cynnar |
| Diswyddo gorfodol | Y gronfa wrth gefn | I'w gwmpasu gan y gronfa wrth gefn |
| Colli trwydded (o ganlyniad i gyflwr meddygol) | Y gronfa wrth gefn | I'w gwmpasu gan y gronfa wrth gefn |
| Marw yn y swydd | Y gronfa wrth gefn | I'w gwmpasu gan y gronfa wrth gefn |
| Salwch terfynol | Y gronfa wrth gefn | I'w gwmpasu gan y gronfa wrth gefn |
| Newid mewn ffordd o fyw (fel y'i diffinnir gan CThEF) | Y gronfa wrth gefn | I'w gwmpasu gan y gronfa wrth gefn |
| Absenoldeb rhiant (mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, mabwysiadu) | Y gronfa wrth gefn* | Mae cyflog y cyflogai'n gostwng i dâl statudol, bydd hyd at uchafswm o chwe thaliad misol yn cael eu talu o'r gronfa wrth gefn nes i'r cyflogai ddychwelyd i'w gyflog llawn.<br><br>**Fodd bynnag, os yw'r cyflogai'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb rhiant ac yn gofyn am leihau'r oriau contract gan olygu bod ei gyflog yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol, bydd y cyflogai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar.* |
| Absenoldeb salwch – Pan fo cyflog cyflogai yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol | Y gronfa wrth gefn* | Os yw cyflog y cyflogai yn gostwng i hanner cyflog ac o dan y cyflog byw cenedlaethol, yna bydd y gronfa wrth gefn neu'r polisi yn talu'r taliadau nes i'r cyflogai ddychwelyd i gyflog llawn (hyd at uchafswm o chwe mis).<br><br>**Fodd bynnag, os na fydd y cyflogai yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl y cyfnod o chwe mis pan fo'r gronfa wrth gefn neu'r polisi'n talu, neu fod y cyflogai'n gwneud hynny ac yn gofyn am leihau'r oriau contract gan olygu bod ei gyflog yn gostwng o dan y cyflog byw cenedlaethol, yna bydd y cyflogai'n gyfrifol am dalu'r gosb terfynu cynnar.* |